



Ysgol Tryfan

Gorffennaf 14, 2014

Croeso i Flwyddyn 7 yn Ysgol Tryfan ym mis Medi, 2014

Annwyl Riant / Warcheidwad

Ar ddiwedd blwyddyn ysgol fel hyn hoffwn ddymuno'n dda i bob un ohonoch dros wyliau'r haf. Rwy'n sicr fod dyddiau olaf eich plentyn yn yr ysgol gynradd wedi bod yn gyfuniad rhyfedd o dristwch a chyffro a hoffwn ddiolch i'r holl ysgolion cynradd am weithio'n galed a pharatoi'r disgyblion i drosglwyddo atom yn Ysgol Tryfan.

Yn gyntaf hoffwn eich hysbysu na fyddwn yn Ysgol Tryfan yn agor ein drysau i ddisgyblion tan **ddydd Mercher y 3ydd o Fedi 2014**. Mae hyn yn wahanol i nifer o ysgolion cynradd y dalgylch ac ymddiheuraf os yw hyn yn peri anhawster i rai rhieni, ond rydym wedi penderfynu defnyddio dau ddiwrnod o Hyfforddiant Mewn Swydd ar ddechrau'r tymor.

Mae cloch gyntaf y dydd yn canu am 8.55 ar gyfer y cyfnod cofrestru. Ar y dydd Mercher cyntaf hwn fe ddisgwyliwn i ddisgyblion newydd blwyddyn 7 ddod atom i Neuadd yr ysgol i gyfarfod eu Pennaeth Blwyddyn a'u hathrawon bugeiliol.

Hyderaf fod pob un ohonoch wedi derbyn copi o Lawlyfr yr Ysgol yn gynharach eleni, sy'n cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol i chi wrth baratoi i ddod atom. Gellir cael mynediad i gopi o'r Llawlyfr ar wefan yr ysgol - www.ysgoltryfan.org – ar y brif dudalen ar gyfer Rhieni. Hoffwn eich annog beth bynnag i droi at y wefan er mwyn cael blas o fywyd yr ysgol. Byddai'r adran Newyddion a'r Albwm Lluniau o ddiddordeb arbennig felly i chi fel darpar rieni.

Hoffwn eich hysbysu hefyd fel rhieni y bydd pris cinio ysgol yn codi ychydig ym mis Medi gyda'r cinio llawn yn costio £2.20, prydau pasta yn costio £1.70 a'r tatws trwy'u crwyn/baguettes/paninis yn costio £1.30. Byddwn yn gosod rhestr fanwl ddiwygiedig o brisiau newydd y ffreutur ar gyfer Medi 2014 ar y dudalen Rhieni > Llythyrau i Rieni ar wefan yr ysgol.

Felly hoffwn ddymuno haf hir, diogel a heulog i chi eleni - ac edrychaf ymlaen yn arw i weld disgyblion newydd blwyddyn 7 yma yn Ysgol Tryfan ar y 3ydd o Fedi.

Yn gywir

Gwyn Tudur
Pennaeth



Ysgol Tryfan
Lôn Powys, Bangor, Gwynedd. LL57 2TU
☎ 01248 352 633 ☎ 01248 361 264
swyddfa@tryfan.gwynedd.sch.uk www.ysgoltryfan.org

Pennaeth/Headteacher: Gwyn Tudur

